

# Cofnodion y Bwrdd wedi'u cadarnhau

**Teitl y Cyfarfod:** Fforwm Rheoli Tir Cymru

**Lleoliad:** Galwadau Skype

**Dyddiad y Cyfarfod:** 13 Rhagfyr 2019

**Yn bresennol:**

Zoe Henderson (Aelod o Fwrdd CNC a Chadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru)

Rachel Lewis-Davies (NFU Cymru)

Hedd Pugh (NFU Cymru)

Dennis Matheson (Cymdeithas y Ffermwyr Tenant)

Marc Williams (CNC)

Martyn Evans (Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru, CNC)

Anthony Geddes (Confor)

Geri Mills (Ysgrifenyddiaeth, CNC)

Ruth Jenkins (Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol)

Sarah Hetherington (CNC)

Sally Tansey

Geraint Davies (Aelod o Fwrdd CNC)

Chris Blake (Aelod o Fwrdd CNC)

Elliott Rillie (CLA)

**Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:**

Dominic Driver (Pennaeth Stiwardiaeth Tir, CNC), a hynny hyd at, ac yn cynnwys, eitem 5 yn unig

Russell De’Ath (CNC), eitem 7

Clive Walmsley (CNC), eitem 8

### **Ysgrifenyddiaeth:**

Marc Williams (Cydgysylltydd Llygredd Amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru, CNC)

### **Ymddiheuriadau:**

Meinir Wigley (CNC)

Tim Kirk (Confor)

Sian Thomas (CFfl)

Bob Vaughan (Rheolwr Coedwigoedd a Ffermio Tir Cynaliadwy, CNC)

## **Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant**

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Zoe Henderson a nododd yr ymddiheuriadau gan egluro fod ymrwymadau cyfarfodydd yr aelodau yn golygu y byddai galwad Skype fer yn cael ei chynnal i ddiweddarau'r aelodau cyn y cyfarfod llawn ym mis Chwefror.
2. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â'r eitemau i'w hystyried ar yr Agenda.

## **Eitem 2 Cofnodion y cyfarfod diwethaf ac unrhyw faterion sy'n codi**

3. Nid oedd unrhyw welliannau i gofnodion y cyfarfod diwethaf a chytunwyd y dylid eu cyhoeddi ar dudalen We Fforwm Rheoli Tir Cymru ar wefan CNC.

## **Eitem 3 Llywodraethu Fforwm Rheoli Tir Cymru**

4. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod cyfarfod wedi cael ei gynnal rhyngddi hi ac Emyr Williams yn ddiweddar. Daeth y Cadeirydd i'r casgliad fod y cyfarfod wedi bod yn gyfle gwych i rannu a meithrin gwybodaeth am y sefydliadau dan sylw.
5. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod CNC yn recriwtio ar gyfer rôl Pennaeth Cwsmeriaid a Masnachol ar hyn o bryd a bod Bwrdd CNC yn awyddus i'r rôl hon adolygu a datblygu dull cyfathrebu cydweithredol.

## **Eitem 4 Rôl y rhaglen Creu Coetir ar Ystad Coetir Llywodraeth Cymru**

6. Gofynnodd Dominic Driver am farn y Fforwm ar rôl CNC o ran caffael tir ar gyfer creu coetir, a hynny mewn perthynas â'r argyfwng hinsawdd. Cadarnhaodd Dominic fod yna fandad ar gyfer 350 hectar bob blwyddyn i ddigolledu am y coetir a gollir yn sgil

datblygiadau ffermydd gwynt. Awgrymodd Dominic raddfa gaffael o oddeutu 1,000 hectar yn ystod y pum mlynedd nesaf fel man cychwyn.

7. Amlygodd y fforwm yr heriau sy'n bodoli ar hyn o bryd i greu coetir. Cadarnhaodd NFU fod ffermwyr yn barod i gymryd rhan mewn prosiectau plannu bach, ond bydd angen iddynt gael eu cefnogi gan grant y Cynllun Datblygu Gwledig.
8. Cydnabu Ruth Jenkins y pryderon a fynegwyd ac amlygodd fod yr her yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd a bod angen i bawb gefnogi'r newidiadau.
9. Aeth y Fforwm ymlaen i drafod yr effeithiau ar gymunedau a'r iaith Gymraeg yn sgil coedwigo ar raddfa fawr, a chadarnhaodd yr NFU fod ffermwyr yn awyddus i blannu coed gyda'r gefnogaeth gywir, a hynny yn y lleoliadau iawn yng Nghymru.
10. Eglurodd Denis Matheson fod yna heriau i ffermwyr tenant mewn perthynas â phlannu coed.
11. Cydnabu NFU yr argyfwng hinsawdd ac amlygodd na all y baich o ddatgarboneiddio ddisgyn ar gymunedau gwledig a ffermwyr yn unig. Aeth NFU ymlaen i amlygu ei weledigaeth sero-net ei hun, a chefnogodd ddull o gydweithredu rhwng yr Undebau Ffermio a CNC i archwilio'r opsiynau ar gyfer creu coetir.
12. Nododd Dominic Driver bryderon y Fforwm gan gytuno i fynd ar drywydd y trafodaethau gyda'r unigolion y tu allan i'r cyfarfod.

## Eitem 5 Y Strategaeth Wyddoniaeth ac Arloesi

13. Amlinellodd Dominic Driver ei awydd i gynnwys y Fforwm yn y broses o ddiweddarau'r Strategaeth, gyda Llywodraeth Cymru yn arwain ar y gwaith diweddarau ar ran Prydain Fawr. Amlygodd Dominic y bydd digwyddiadau ar gyfer Rhanddeiliaid yn cael eu cynnal yn ystod mis Ionawr neu fis Chwefror gan Lywodraeth Cymru, ac anogodd y rhanddeiliaid i gymryd rhan.

**PG01: Yr ysgrifenyddiaeth i rannu'r sleidiau â'r Grŵp er gwybodaeth**

## Eitem 6 Diweddariad CNC

14. **Trwyddedau Cyffredinol:** Cadarnhaodd Ruth Jenkins y bydd adolygiad ar drwyddedau yn cael ei gynnal yn 2020. Dywedwyd y bydd yr adolygiad yn gweithio gyda'r rhanddeiliaid. Nodwyd y bydd y Trwyddedau Cyffredinol sydd mewn grym ar hyn o bryd, ac sydd i fod i ddod i ben ddiwedd mis Rhagfyr 2019, yn cael eu hymestyn hyd nes y cynhelir yr adolygiad.
15. **Creu Coetir:** Cadarnhaodd Ruth Jenkins fod CNC yn bwriadu gweithio gyda'r holl rhanddeiliaid i nodi unrhyw faterion a chyfleoedd. Os bydd LIC yn dyrannu arian cyhoeddus ychwanegol i gefnogi'r gwaith creu coetir, a hynny fel budd cyhoeddus, nodwyd y bydd CNC hefyd yn parhau i weithio gyda pherchnogion tir.
16. **Y Rhaglen Grantiau:** Nodwyd bod CNC wedi adolygu'r mecanwaith grantiau a oedd mewn grym ac sy'n ariannu eraill. Eglurodd Ruth y gallai fod yna opsiwn i weithio gyda'r grŵp trwy gyfrwng Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn y dyfodol er mwyn ariannu

prosiectau gan ddefnyddio dull cydweithredol. Cadarnhaodd Martyn Evans y byddai hyn hefyd yn gyfle i Benaethiaid Lle ymgysylltu â'r broses, gan ganolbwyntio ar gyflawni ar y cyd â CNC, neu ar ran CNC.

17. **Yr Ymgynghoriad Diwygio Mynediad:** Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cael ei gyflwyno yn ôl i'r grŵp er mwyn sicrhau dull cydweithredol.
18. **Y Rheoliadau Dŵr:** Cadarnhaodd Ruth Jenkins fod CNC wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru dros y misoedd diwethaf i ddeall materion a chyfleoedd, a nododd hefyd bwysigrwydd y gwaith a wnaed gan yr Is-grŵp Amaeth.
19. Amlygodd Denis Matheson yr angen i adolygu cyllid y Prosiect Llaeth a'r swyddogion. Rhoddodd Ruth sicrwydd i'r aelodau fod CNC yn edrych ar sicrhau adnoddau ar gyfer y prosiect.

## Eitem 7 Diweddariad ar y Datganiadau Ardal

20. Ymunodd Russell De'Ath â'r cyfarfod a chadarnhaodd fod gwaith ffocws cyfredol y tîm yn ymwneud â datblygu tudalennau We a fydd yn cael eu cyhoeddi cyn diwedd mis Mawrth. Nodwyd bod y tîm yn parhau i annog rhagor o bobl i ymgysylltu â'r gwaith o ddatblygu datganiadau ardal rhanbarthol.
21. Dywedodd Russell y cafwyd cynrychiolaeth dda o'r rhanddeiliaid yn y digwyddiad a gynhaliwyd ar 4 Hydref.

### ***PG02: Russell De'Ath i rannu nodiadau'r sesiwn â'r Fforwm.***

22. Daeth Russell i'r casgliad fod sawl digwyddiad wedi cael ei gynnal ac y bydd manylion digwyddiad Canolbarth Cymru yn cael eu rhannu ag aelodau'r Fforwm.
23. Cyflwynodd Russell grynodedb o'r cwestiynau a godwyd yn ystod y digwyddiad a gynhaliwyd ar 4 Hydref:
  1. A allwn ddefnyddio'r Datganiadau Ardal i fynd ar drywydd cyllid amaethyddol, gan lywio cynlluniau? Byddai hyn yn gofyn am fewnbwn gan ffermwyr lleol.
  2. A all Llywodraeth Cymru gyfrannu at y polisi? Cadarnhawyd bod CNC a LIC yn parhau i weithio gyda'i gilydd.
  3. Sut y gallwn ddefnyddio'r broses i gasglu data? Nodwyd bod CNC yn parhau i archwilio'r opsiwn hwn.
  4. Sut y gellir cysylltu â ffermwyr? Parhau i gynnal sgysiau sy'n ymestyn allan.
  5. Awydd i lunio nodyn briffio. Gofynnodd Russell am wirfoddolwr o'r grŵp i gefnogi'r broses o ddatblygu'r nodyn briffio. I'w cwblhau erbyn mis Ionawr/dechrau mis Chwefror.

Cynigiodd y CLA a Confor i wirfoddoli er mwyn ymgysylltu â'r gwaith o ddatblygu'r nodyn briffio. Cadarnhaodd Russell y byddai'n ail-ymgysylltu â'r fforwm llawn cyn cyhoeddi'r nodyn briffio ar y Rhyngwyd.

24. Yn sgil adolygu'r camau gweithredu a oedd yn weddill, eglurodd Russell fod pob ardal ddaearyddol a oedd yn rhan o'r timau Datganiadau Ardal yn cynllunio ac yn dylunio eu prosesau ymgysylltu, a hynny'n seiliedig ar rwydweithiau presennol, a'u bod yn datblygu tudalennau We unigol i roi gwybodaeth i bartïon â diddordeb. Awgrymodd y Cadeirydd y dylai Russell roi trosolwg lefel uchel i'r grŵp o swyddogaethau pob un o'r timau datganiadau ardal, ynghyd â rhannu eu manylion cyswllt â'r grŵp.

***PG03: Russell i grynhoi rolau a manylion cyswllt pob un o'r timau Datganiad Ardal a'u rhannu â'r fforwm.***

## **Eitem 8 Cynllun Argyfwng Hinsawdd CNC**

25. Ymunodd Clive Walmsley â'r cyfarfod gan egluro mai pwrpas y slot oedd rhoi cyflwyniad i'r fforwm ynghylch cynllun CNC, a drafodwyd yng nghyfarfod diweddar o Fwrdd CNC. Cadarnhaodd Clive fod Llywodraeth Cymru wedi datgan argyfwng hinsawdd ar 30 Ebrill 2019. Eglurodd Clive fod CNC wedi penderfynu peidio â datgan argyfwng, yn dilyn trafodaethau yn y sefydliad, ond y byddai'n gweithio tuag at y maes gweithredu a amlygwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn dilyn hynny, nodwyd bod CNC wedi datblygu rhestr o ddeg uchaf mewn perthynas â'r 15 maes gweithredu mewn ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd.

26. Cadarnhaodd Clive y bu CNC yn bresennol yn uwchgynhadledd Sero-net y Deyrnas Unedig, a hynny ar y cyd â'r holl asiantaethau ystyriol i natur a choedwigaeth. Trwy gydweithio â'r grwpiau hyn, nodwyd bod CNC yn chwilio am safbwyntiau cyffredin, gan gydnabod ar yr un pryd y rôl bwysig y mae mawndiroedd a chynefinoedd yn ei chwarae o ran cyflawni'r targed sero-net.

27. Eglurodd Clive y bydd cyfarfod mewnol yn cael ei gynnal gan CNC cyn hir yn ymwneud â Rhaglen Adfer Cymru, a hynny mewn ymateb i'r cais gan LIC i ddatblygu rhaglen. Cadarnhaodd Clive y bydd trafodaethau'n cael eu cynnal yn y cyfarfod hwnnw ynghylch cydweithredu â rhanddeiliaid.

28. Nododd y Cadeirydd y diweddariad ac estyn gwahoddiad i Clive i gyfarfod y fforwm ym mis Chwefror er mwyn ymgysylltu â'r grŵp a rhoi diweddariad pellach.

## **Eitem 9 Fforwm Sgiliau Rheoli Tir CNC**

29. Cadarnhaodd Sally Tansey fod CNC yn adolygu'r sgiliau a'r cymwyseddau yn y sector rheoli tir ar hyn o bryd. Eglurodd Sally fod y newidiadau i'r strwythurau a'r staffio yn CNC, yn rhan o raglen Cynllun y Sefydliad, bellach yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal adolygiad er mwyn galluogi CNC i roi ei agenda ar waith. Y rheswm dros hyn oedd bod unigolion heb sgiliau na chymwyseddau bellach mewn swyddi rheoli tir, bod yna brofiad rheoli cyfyngedig i ddarparu hyfforddiant, a bod yna awydd i ddenu ymgeiswyr allanol i lenwi swyddi gwag.

30. Nodwyd bod angen i CNC feithrin darlun clir o'r sgiliau a'r cymwyseddau sy'n ofynnol i ddarparu yn y dyfodol. Cadarnhaodd Sally ei bod yn gweithio gyda chyd-weithwyr o'r cynllun Dysgu a Datblygu, ynghyd â chyd-weithwyr ym maes TGCh a Confor. Nodwyd bod ymarfer cychwynnol yn cael ei ddatblygu ar gyfer graddau'r swyddi rheoli contractau a goruchwylio, ac y byddai Dominic Driver yn gyfrifol amdano.

31. Cadarnhaodd Sally y bydd yna gynllun prentisiaeth yn cael ei sefydlu yn y dyfodol ar gyfer swyddi rhwng lefel 2 a 6. Dywedodd Sally fod croeso i aelodau'r fforwm gysylltu â hi os bydd arnynt angen unrhyw wybodaeth bellach.

## **10. Diweddariad gan UAC/NFU/Confor/TFA/CFfi**

32. Cadarnhaodd Denis Matheson y bydd y Bil Amaeth yn cael ei ddwyn ymlaen cyn hir, ac y bydd yn cynnwys y diwygiadau i'r gyfraith tenantiaeth.

33. Cadarnhaodd y CLA y bydd y sawl a fydd yn ymgymryd â dyletswyddau Rebecca Williams yn cael ei gyhoeddi yn ystod yr wythnos ganlynol.

## **Eitem 11 Diweddariadau gan y Fforymau**

34. Nododd y Fforwm ddiweddariadau'r Fforymau a rannwyd ar yr un pryd â phapurau'r cyfarfod.

## **Eitem 12 Manylion y Cyfarfod Nesaf**

35. Cadarnhawyd y cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Llun, 10 Chwefror 2020, yn Aberystwyth.

## **Eitem 13 Unrhyw Fater Arall**

36. Cyfeiriodd Marc Williams at yr ymgynghoriad Heriau a Dewisiadau yr oedd disgwyl iddo ddod i ben ar 22 Rhagfyr 2019.

## **Diwedd y Cyfarfod**